makingsense@home

Croeso i'n
"Profiad Glan y Môr dan do"

- Rydym ni wedi llunio adnoddau i'ch cynorthwyo chi i greu ein profiad synhwyraidd glan y môr yn y cartref.
- Dyluniwyd ein syniadau synhwyraidd i greu cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu synhwyraidd, creadigrwydd, bod yn chwareus a chael llwyth o hwyl yr un pryd!

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

making sense CIC

Creu eich profiad glan y môr yn y catref

(Syniadau fel arweiniad yn unig yw'r rhain. Mae croeso i chi fod mor greadigol ag y dymunwch a chael eich harwain gan yr unigolyn rydych chi'n gofalu amdano/amdani – a'r hyn maen nhw'n fwynhau ei wneud)

Beth sy'n eich atgoffa chi (y ddau ohonoch chi) am drip i lan y môr? Ai arogl eli haul, teimlad lliain glan y môr, tywod rhwng bodiau'ch traed, gwisgo dillad haf, yfed diod oer gyda rhew trwy welltyn, llyfu hufen iâ neu arogl pysgod a sglodion?

Os oes gennych chi eli haul a thywelion wrth law, neu'n medru meddwl am bethau eraill sy'n gwneud i chi a'r unigolyn rydych chi'n gofalu amdano/amdani feddwl am lan y môr, casglwch nhw ynghyd ar gyfer eich profiad glan y môr.

Syniadau eraill:

Powlen o ddŵr ar gyfer eich traed, ffan, potel chwistrellu dŵr, hufen iâ, cregyn glan y môr, hetiau haul….

Os ydych chi'n rhoi unrhyw ffotograffau o'ch profiad glan y môr gartref ar y cyfryngau cymdeithasol, tagiwch @MakingSenseCIC os gwelwch yn dda.

Rydym ni wedi trefnu galwad Zoom ar Dydd Gwener 24ain Gorffennaf, 11am https://zoom.us/j/8561850336 Meeting ID: 856185 0336

Rhag ofn bod gennych chi unrhyw gwestiynau neu syniadau i'w rhannu neu os hoffech chi rannu eich profiad glan y môr gydag eraill.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

making sense CIC

Gemau pêl traeth i ddau

Mae teimlo'r bêl yn llenwi gydag aer wrth i rywun arall ei phwmpio yn brofiad synhwyraidd gwych, ac mae yna ymdeimlad o gyffro bob tro!

Mae taflu a dal y bêl yn creu llawer o hwyl!

Hefyd rhowch gynnig ar ddal y bêl at eich clust rhwng dau unigolyn a defnyddio eich bysedd yn ysgafn i gyffwrdd y bêl i anfon rhythm 'tapio' a chopïo rhythm y naill a'r llall.

Rhowch gynnig ar ddal ffôn, dyfais tabled neu uned sain 'bluetooth' yn erbyn arwyneb y bêl a rhoi eich clust arni i glywed y gerddoriaeth neu seiniau glan y môr yn dirgrynu trwy'r bêl.

Medrwch ganu neu weiddi (ond ddim yn rhy uchel!) i mewn i'r bêl tra bo'r unigolyn arall yn rhoi eu clust yn ei herbyn – ac yna newid drosodd.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
making sense CIC

Seiniau glan y môr

http://www.makingsensecic.org.uk/soundboard/

Os yw'n bosib ceisiwch newid eich amgylchedd ar gyfer y gweithgaredd hwn, gan gyfyngu ar seiniau eraill fel y teledu neu'r radio.
Cewch ddilyn y ddolen i'n seiniau glan y môr a chreu eich morlun personol gan ddefnyddio'r botymau a ddarparwyd ar ffôn clyfar, dyfais tabled, gliniadur neu gyfrifiadur.
Rhowch gynnig ar wahanol gyfuniadau seiniau, a dewiswch y rhai rydych chi'n eu hoffi gyda'ch gilydd.
Gallech addasu cyfuniad y seiniau yn ystod eich profiad glan y môr i newid yr amgylchedd a'r naws.

Gan Ant Dickinson

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
making sense CIC

Melin wynt glan y môr

Mae'r felin wynt yn dod mewn pecyn ond mae'n hawdd a sydyn i'w lunio gan ddilyn y cyfarwyddiadau yn y pecyn. Bydd yn ychwanegu at eich profiad glan y môr!
Gallech gymryd eich tro i'w chwythu a'i gwylio'n troi
Ffilm sut i wneud melin wynt
Dolen i'r ffilm melin wynt
https://vimeo.com/437925342

Cyfarwyddiadau
Dyma'r darnau yn eich pecyn:

Deilen melin wynt 1 a 2



Coes melin wynt

Blodyn canol

Cylch clicio

Siafft llywio

1. Rhowch y siafft llywio trwy'r twll yng nghanol dwy ddeilen y felin wynt

2. Bob yn un rhowch y tyllau ar ben pellaf y dail ar y siafft llywio



3. Yna rhowch y blodyn canol yn ei le



4.Yna'r cylch clicio



5. Yna'r cwbl sydd angen ei wneud ydi ychwanegu coes y felin wynt ac rydych chi wedi ei chwblhau!



Cerdyn Post Synhwyraidd Glan y Môr

Cerdyn post gwag gyda glud a deunyddiau synhwyraidd i chi ddewis o'u plith i lunio eich cerdyn post glan y môr eich hun. Archwiliwch weadedd a lliwiau'r gwahanol bapurau a deunyddiau a dewis eich hoff rai i greu cerdyn post synhwyraidd.

Meddyliwch am eich profiad glan y môr gartref ac ysgrifennu am eich diwrnod. Gallech gynnwys yr hyn roeddech chi'n medru ei arogli, ei deimlo, ei flasu a'i glywed – ac fe allech ei bostio at rywun os hoffech chi!

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

making sense CIC

making sense CIC

Adborth - Feedback

Cymrwch funud i ateb y cwestiynau a ganlyn, os gwelwch yn dda.
Mae eich adborth chi'n bwysig iawn i ni!

Please take a moment to answer the following questions, your feedback is very important to us!

Pethau rydw i wedi'u dysgu
Things I have learnt

3 .....

.....

.....

Pethau roeddwn i'n eu hoffi am y pecyn celf
Things I liked about the art pack

2

Peth y byddwn i'n eu newid neu'n eu gwneud yn wahanol
Thing I would change or do differently

1

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government